Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.08.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Cynllun Gwella Platfform Digidol

Mae cyfle i fusnesau yn y sectorau lletygarwch a chynhyrchu bwyd a diod, sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd, i gymryd rhan mewn cynllun newydd gan Gyngor Gwynedd i wella eu Platfform Digidol. Bydd y prosiect yn cydweithio gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau er mwyn adnabod anghenion digidol busnes, ac yna'n cynnig cefnogaeth mentora a hyfforddiant i uwchraddio sgiliau digidol y busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AuERGR

Neu e-bostiwch: PlatfformDigidol@gwynedd.llyw.cymru

# ARIANNU: Cronfa Cymorth i Bartneriaid Cwpan y Byd 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi agor cronfa £1.5 miliwn i gefnogi amrywiol sefydliadau o ddiwylliant, y celfyddydau, chwaraeon a'r cyfryngau ar gyfer gweithgareddau i ddathlu Cymru yng Nghwpan y Byd y dynion. Mae Cronfa Cefnogi Partneriaid Cwpan y Byd yn un rhan o'r gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n deillio o gyfranogiad cyffrous Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA yn Qatar yn ddiweddarach eleni. Gall sefydliadau wneud cais am hyd at £500,000 i ddarparu project neu weithgareddau amrywiol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1:00pm ddydd Gwener 26 Awst 2022. Gellir gofyn am ffurflen gais drwy e-bostio: TimCymru.CwpanYByd22@llyw.cymru

I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cwpan-y-byd-2022

# LLES: Gweninarau RCS

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae manylion am weminarau lles RCS sydd ar y gweill ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

# DIGWYDDIADAU: Gweminarau Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn cynnal y gweminarau canlynol yn ystod Medi 2022:

- Dechreuwch eich busnes eich hun ym maes gwallt a harddwch – 8 Medi 2022: https://bit.ly/3QufwlH

- Adnoddau rhad ac ddim ar gyfer eich busnes – 13 Medi 2022: https://bit.ly/3zZKdrX

- Troi eich gwaith crefft yn fusnes – 19 Medi 2022: https://bit.ly/3SRiXop

- 10 o awgrymiadau gwych ar gyfer dechrau busnes rhan amser – 29 Medi 2022: https://bit.ly/3QvnjzX

Mae gwybodaeth am holl ddigwyddiadau Busnes Cymru, gan gynnwys digwyddiadau Cyflymu Cymru i Fusnesau, ar gael ar:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

## DIGWYDDIAD: Gweithdy Gwerth Cymdeithasol Larder Cymru 14 Medi 2022

Hwb bwyd a diod yw Larder Cymru sy'n dod â chynhyrchwyr a phroseswyr rhanbarthol at ei gilydd fel eu bod mewn sefyllfa well i ymateb i'r cyfleoedd i gyflenwi'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Bydd Gweithdy Gwerth Cymdeithasol Larder Cymru, i'w gynnal ar-lein ar 14 Medi 2022 (10:00am-11:30am), yn dangos sut y gall busnesau dynnu sylw at y gwerth cymdeithasol i'r economi leol y maent yn darparu ac yn amlinellu sut y gall y sector cyhoeddus ddarparu cyfleoedd newydd i fusnesau. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu, ewch i:

https://bit.ly/3QzbNU4

Mae gwybodaeth cyffredinol am Larder Cymru ar gael ar:

https://www.lardercymru.wales/cy/hafan

# IECHYD: The Circuit – Y Rhwydwaith Diffibrilwyr Cenedlaethol

Mae gwasanaethau brys ac elusennau yn annog busnesau ledled Cymru sy'n berchen ar ddiffibrilwyr i gofrestru eu dyfeisiau ar fas data cenedlaethol o'r enw The Circuit, felly pan fydd rhywun yn cael ataliad y galon, gall trinwyr galwadau 999 gyfeirio pobl gerllaw at y diffibriliwr cofrestredig agosaf wrth aros i'r ambiwlans gyrraedd. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru eich diffibriliwr, ewch i:

https://www.thecircuit.uk/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru